5.199

# FY HOFF, LWYS WLAD.

Cyflwynedig i fy hoff gyfaill Thomas Oldfield, yswain (Eryr Moelfre).

TON,—"SWEET HOME."

Dalier sylw,—mai nid yr hen dôn "Sweet Home" ydyw hi, ond tôn newydd gan W. T. Wrighton, a'r geiriau yn dechreu fel hyn,—

"The dearest spot of earth to me
Is home, sweet home."

Mor anwyl yw dy wedd i mi
Fy hoff, lwys wlad:
Gogoniant Prydain ydwyt ti,
Fy hoff, lwys wlad:
Tra bo hediad yr awelon
I'th gofleidio yn yr hinon
Ceir dy arlun ar fy nghalon,
Fy hoff, lwys wlad.

Yn niwedd oes, O! boed i mi,
Fy hoff, lwys wlad,
Gael byw a marw ynot ti,
Fy hoff, lwys wlad:
Cwyd y weddi o fy nghalon,—
Bydded iti bob bendithion,
Rhyddid, hedd, a "Duw a digon,"
Fy hoff, lwys wlad.

TALHAIARN.